

‘Who was Hedd Wyn?’: Cyflwyno elfennau o naratif Cymreig y Rhyfel Byd Cyntaf mewn rhaglenni dogfen Saesneg ar gyfer BBC Wales ar adeg y canmlwyddiant (2014–2017)

Naomi Palmer 

Cyfeirnod:

Palmer, N. (2026), “Who was Hedd Wyn?”: Cyflwyno elfennau o naratif Cymreig y Rhyfel Byd Cyntaf mewn rhaglenni dogfen Saesneg ar gyfer BBC Wales adeg y canmlwyddiant (2014–2017), *Gwerddon*, 41. <https://doi.org/10.61257/GWER4102>

Cyhoeddwyd: Mawrth 2026

Arfarnu:

Mae'r erthygl hon wedi cael ei harfarnu gan gymheiriaid drwy broses ddwbl-ddall *Gwerddon*, cyfnodolyn a gyhoeddir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Hawlfraint:

© 2026 Yr Awdur(on). Mae hon yn erthygl mynediad agored a ddosberthir o dan delerau'r Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution 4.0 (CC BY 4.0), sy'n caniatáu defnydd, dosbarthiad ac atgynhyrchu heb gyfyngiad mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod bod yr awdur a'r ffynhonnell wreiddiol yn cael eu cydnabod. Gweler <http://creativecommons.org/licenses/by/4.0/>.

Mynediad agored:

Mae hon yn erthygl mynediad agored sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid.

‘*Who was Hedd Wyn?*’: Cyflwyno elfennau o naratif Cymreig y Rhyfel Byd Cyntaf mewn rhaglenni dogfen Saesneg ar gyfer BBC Wales ar adeg y canmlwyddiant (2014–2017)

Naomi Palmer 

‘I could go shopping and forget to bring something – that only happened yesterday, but I don’t forget what happened in World War One, and the things I saw.’

Bob Owen, *Welsh Memories of World War I* (BBC Wales, 27 Awst 2014).

Crynodeb: Yn yr erthygl hon, ceir dadansoddiad o gynnwys pump o raglenni dogfen Saesneg am y Rhyfel Byd Cyntaf a ddarlledwyd gan BBC Wales yn ystod cyfnod y canmlwyddiant. Ystyrir y modd y caiff storïau o Gymru am y Rhyfel Byd Cyntaf (megis Hedd Wyn, brwydr Coedwig Mametz a David Lloyd George) eu cyflwyno i gynulleidfaoedd di-Gymraeg, ynghyd â’r sylw a’r diffyg sylw i rai pynciau a themâu yn ymwneud â phrofiadau Cymru a’i phobl yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ceir elfen gymharol i’r dadansoddiad sy’n ystyried y tebygrwydd a’r gwahaniaethau rhwng y portread o brofiadau Cymru a’r Rhyfel Byd Cyntaf yn y rhaglenni dogfen Saesneg o gymharu â rhaglenni dogfen Cymraeg ar gyfer S4C dros y deugain mlynedd ddiwethaf.

Allweddeiriau: Cymru, Rhyfel Byd Cyntaf, rhaglen ddogfen, teledu, BBC, S4C, Hedd Wyn, Mametz, David Lloyd George.

‘*Who Was Hedd Wyn?*’: Presenting elements of the Welsh narrative of the First World War in English-language documentaries for BBC Wales during the centenary (2014–2017)

Summary: This article contains content analysis of five English-language documentaries broadcast during the centenary of the First World War on BBC Wales. It considers the way that Welsh stories about the First World War (such as Hedd Wyn, the Battle of Mametz Wood and David Lloyd George) are presented to non-Welsh speaking

audiences, and the attention – and lack of attention – given to some of the themes and subjects relating to the Welsh experience of the war. There is a comparative element to the analysis that considers the similarities and differences in the portrayal of the Welsh experience of the First World War in the five English-language documentaries in comparison to Welsh-language documentaries broadcast on S4C over the last forty years.

Key words: Wales, First World War, documentary, television, BBC, S4C, Hedd Wyn, Mametz, David Lloyd George.

Cyflwyniad

Bydd yr erthygl hon yn ystyried y modd y mae rhaglenni dogfen Saesneg am Gymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf yn portreadu elfennau Cymreig o'r profiad rhyfel (yn benodol Hedd Wyn, brwydr Coedwig Mametz a David Lloyd George) i gynulleidfaoedd di-Gymraeg yn bennaf. Ceir elfen gymharol i'r dadansoddiad sy'n ystyried y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y portread o brofiadau Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf yn y rhaglenni dogfen Saesneg o gymharu â rhaglenni dogfen Cymraeg ar gyfer S4C dros y deugain mlynedd ddiwethaf.

Mae'r storïau hyn am Gymru, am gymunedau, pobl a theuluoedd o Gymru, a'u profiadau hwy o'r rhyfel. Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar atgofion cyn-filwyr o'r rhyfel, sy'n cynnwys disgrifiadau graffig o'r meysydd brwydro. Ynghyd â hyn, mae Hedd Wyn yn cael ei ystyried yn ffigwr sy'n cynrychioli colledion Cymreig y Rhyfel Byd Cyntaf yn ei gyfanrwydd, a phortreidir ef a'i stori fel symbol o holl drasiedi a gwastraff y rhyfel. Nid oes angen esbonio i'r Cymry Cymraeg pwy oedd Hedd Wyn a pham fod ei stori'n arwyddocaol, ond mae'r elfen gymharol i'r erthygl hon yn ystyried sut y mae esbonio pwysigrwydd stori Hedd Wyn i gynulleidfa ddi-Gymraeg na fyddai o bosibl wedi clywed amdano, neu am rai o draddodiadau'r Cymry Cymraeg sydd ynghlwm wrth ei stori. Mewn modd tebyg, yn aml mewn rhaglenni dogfen Cymraeg eu hiaith, ni cheir darlun llawn o fywyd David Lloyd George. Mae'n parhau i fod yn ffigwr sy'n cael ei eilunaddoli yng Nghymru, ond roedd ochr arall llai ffafriol y tu hwnt i'r portread rhamantaidd, arwrol, ohono fel 'mab y bwthyn' a ddaeth yn Brif Weinidog.

Cynigir cyfle yn yr holl raglenni i gyflwyno gwybodaeth a phersbectifau newydd/arloesol am y rhyfel trwy berthnasau, haneswyr ac arbenigwyr. I nifer o wylwyr, y rhaglenni hyn yw eu hunig gysylltiad â hanes Cymru a chynigia'r ymdriniaeth hon gyfle i ystyried y modd y mae gwahanol gynulleidfaoedd yn cael eu cyflwyno i ran Cymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'u galluogi i'w ddeall.¹ Fel y mae John Geraint yn nodi, 'the Welsh have few opportunities to

1 Matthews, G. (2016), 'Rhwng Ffaith a Ffuglen: Atgofion Cyn-Filwyr Cymraeg mewn Cyfweiliadau Ddegawdau wedi Diwedd y Rhyfel', yn Matthews, G. (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 243; Dillon, R. (2010), *History on British Television: Constructing Nation, Nationality and Collective Memory* (Manchester: Manchester University Press), t. 2 a t. 4.

encounter a narrative of their history’.² Trwy wyllo un o’r rhaglenni yn unig, byddai gwyliwr yn sylweddoli bod agweddau Cymreig unigryw i hanes y rhyfel.

Methodoleg

Ystyrir nifer o gwestiynau am gynnwys y rhaglenni yng nghyd-destun eu portread o brofiadau Cymru a’r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd yr erthygl yn ystyried y gwahaniaethau rhwng cynnwys y rhaglenni Cymraeg a’r rhai Saesneg, a’r rhesymau dros hyn:

- Oes tebygrwydd i’r atgofion a rennir yn y rhaglenni Cymraeg?
- Sut mae stori Hedd Wyn yn cael ei hesbonio i gynulleidfa ddi-Gymraeg?
- Ym mha ffordd y mae David Lloyd George yn cael ei gyflwyno?

Yn yr erthygl hon, ceir dadansoddiad o gynnwys pump o raglenni dogfen Saesneg am y Rhyfel Byd Cyntaf a ddarlledwyd gan BBC Wales yn ystod cyfnod y canmlwyddiant. Er mwyn gwneud hyn, ceir proses o ddadansoddiad cynnwys manwl o’r holl raglenni trwy ddefnyddio ffynonellau Llyfrgell y Porth (y Coleg Cymraeg Cenedlaethol), YouTube a Box of Broadcasts, er mwyn creu nodiadau manwl yn dadansoddi cynnwys, strwythur, patrymau thematig, naratif a chonfensiynau’r rhaglenni. O’r nodiadau manwl hyn, crëir mapiau meddwl manwl wedi’u rhannu i bedair adran; disgrifiad/naratif; strwythur; confensiynau genre; cynnwys. Gellid cymharu’r agweddau hyn ac adnabod patrymau yng nghonfensiynau a phynciau/themâu’r rhaglenni o’r mapiau meddwl ac o ganlyniad gellir datblygu strwythur. Mae’n rhaid cofio bod y pum rhaglen Saesneg BBC Wales sy’n derbyn sylw yn ymdrin â phynciau gwahanol, ac felly nid yw’n briodol cymharu cynnwys y rhaglenni. Dyma’r tro cyntaf i raglenni dogfen BBC Wales dderbyn sylw academiaidd ac mae’r ymchwil yn llenwi bwlch pellach yn y llenyddiaeth ar hanes Cymru a’r Rhyfel Byd Cyntaf.³

Gweler tabl isod yn dangos rhaglenni BBC Wales yn ystod cyfnod y canmlwyddiant:

-
- 2 Geraint, J. (2021), ‘Making History: The Story of Wales – Representing the Nation’, yn Sills-Jones, D., a Gruffydd Jones, E. H. (goln), *Documentary in Wales: Cultures and Practices* (Oxford and New York: Peter Lang), t. 76.
 - 3 Palmer, N., ‘Delweddu Cymru a’r Rhyfel Mawr: Portreadau o Gymru a’r Cymry mewn rhaglenni dogfen am y Rhyfel Byd Cyntaf’, traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe, 2023; Matthews, G. (2012), ‘“Sŵn yr ymladd ar ein clyw”: Cyflwyno’r Rhyfel Mawr yn y Gymraeg’, *Gwerddon* 10 (11), 132–57; Matthews, G. (2017), ‘Evolving narratives of the First World War in Welsh-language television programmes’, *SPEIL*, 2 (2), 85–101.

Enw'r rhaglen	Dyddiad darllediad cyntaf	Cwmni cynhyrchu
<i>Welsh Memories of World War I</i>	Rhan 1 – 27 Awst 2014 Rhan 2 – 3 Medi 2014	BBC Wales
<i>Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood</i>	4 Gorffennaf 2016	Bearhug TV for BBC Wales
<i>Welsh Women of World War One</i>	12 Gorffennaf 2016	Green Bay Media a Deborah Perkin Media
<i>Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather</i>	7 Rhagfyr 2016	BBC Wales
<i>Hedd Wyn: The Lost War Poet</i>	5 Awst 2017	Cwmni Da

Tabl 1: Rhaglenni dogfen Saesneg am Gymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf a ddarlledwyd ar BBC Wales rhwng 2014 a 2017

Daw'r holl raglenni sy'n derbyn sylw o brosiect canmlwyddiant y BBC 'World War One at Home', a oedd yn cynnwys 2,500 o oriau o raglenni lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.⁴ Arweiniwyd prosiect penodol gan BBC Wales o dan yr enw 'World War I from BBC Wales', a bu Jane Ellison, a oedd yn Bennaeth Partneriaethau'r BBC yn ystod cyfnod y canmlwyddiant, yn cydnabod 'regional and nations' differences play a significant part'.⁵ Yn ôl Geraint Stanley Jones, 'the purpose of Regional Broadcasting is to report, celebrate, articulate, and generally represent that part of a people's sense of identity which derives from the place where they live'.⁶ Felly roedd cynllun y BBC, 'World War One at Home', yn cydnabod hunaniaethau amrywiol dinasyddion mewn rhannau gwahanol o'r wladwriaeth

4 Ellison, J. (2018), 'World War One on the BBC', *Cultural Trends*, 27 (2), Mai, 125; Todman, D. (2016), "‘Something About Who We Are as a People’: Government, Media, Heritage and the Construction of the Centenary", *Twentieth Century British History*, 27 (4), 520.

5 Ellison, 'World War One on the BBC', 127; Awdur Anhysbys, 'Jane Ellison', gwefan yr Imperial War Museum <<https://www.iwm.org.uk/iwm-institute/associates/janeellison>> [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2024].

6 Jones, G. S. (1990), 'A Sense of Place', yn Hannan, P. (gol.), *Wales in Vision: The People and Politics of Television* (Llandysul: Gomer Press), t. 153; bu Geraint Stanley Jones yn Gyn-bennaeth Rhaglenni BBC Wales (1974–1981), yn Gyn-bennaeth BBC Wales (1981–1989) ac yn Gyn-brif Weithredwr S4C (1989–1994).

ac yn rhoi llwyfan a mynediad i'r gwahaniaethau hyn.⁷ Mae buddsoddiad BBC Wales ym mhrosiect 'World War I from BBC Wales' hefyd yn pwysleisio'n gryf fod naratif Cymreig a Chymraeg i hanes y rhyfel.⁸

O raglenni BBC Wales, y mwyaf poblogaidd o ran ffigyrau gwyllo oedd *Dan Snow On Lloyd George: My Great-Great Grandfather* (BBC Wales, 7 Rhagfyr 2016) gyda 201,000 o wylwyr, a *Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood* (Bearhug TV for BBC Wales, 4 Gorffennaf 2016) gyda 147,000 o wylwyr.⁹ Dengys y ffigyrau hyn fod cyflwynwyr adnabyddus a rhaglenni o ansawdd uchel yn parhau i ddenu gwylwyr at raglenni. Gwelir rhai elfennau rhagorol yn y rhaglenni sy'n mynd ymhellach na chynnwys y rhaglenni Cymraeg eu hiaith a chynigia'r rhaglenni hyn elfen o hanes meicro ar ffurf naratif personol a theuluol.¹⁰ Dangosir dau bersbectif gan Dan Snow: safbwynt rhywun o tu hwnt i Gymru, a safbwynt teuluol. Dyma'r portread mwyaf cyflawn a geir o David Lloyd George mewn rhaglen ddogfen oherwydd y portread o fywyd Lloyd George o bob ongl, ac am yr unig dro, ceir ystyriaeth o'i berthynas â Frances Stevenson a oedd yn feistres, yn ysgrifennydd personol ac yn ail wraig iddo. Mae'n werth nodi y cafodd rhaglen Dan Snow ei darlledu union ganrif ar ôl i David Lloyd George ddod yn Brif Weinidog.

Yn ystod canmlwyddiant brwydr Mametz yn 2016, darlledwyd *Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood*. Heb os, dyma'r rhaglen ddogfen fwyaf cynhwysfawr a gynhyrchwyd am frwydr Mametz mewn unrhyw iaith. Mae'r frwydr hon yn hollbwysig wrth bortreadu aberth y Cymry. Mae elfennau gwahanol y rhaglen gyda'r cyfuniad o'r cloddio archaeolegol, y stori deuluol, yr arbenigwyr, a brwdfrydedd Gareth Thomas, yn arddangos y posibiliadau o'r hyn a allai fod wedi'u cynnwys mewn rhaglen Gymraeg yn ystod cyfnod canmlwyddiant y frwydr. Llwydda'r rhaglen i gyflwyno llu o wybodaeth newydd i wylwyr, ac adeiladwyd yn sylweddol ar gynnwys rhaglenni blaenorol am y frwydr. Nododd S4C ganmlwyddiant y frwydr Gymreig drwy ailddarlledu rhaglen ddogfen *Mametz* (HTV Wales, 19 Awst 1987).

Wrth benderfynu ar ba raglenni i'w dadansoddi, ystyriwyd y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y portreadau mewn rhaglenni dogfen Cymraeg a'r rhaglenni Saesneg ac yn benodol y sylw a'r diffyg sylw i themâu a phynciau penodol. Mae rhaglenni BBC Wales yn cynnig trawstoriad o bynciau sy'n derbyn sylw eang yn y rhaglenni dogfen Cymraeg: David Lloyd George, atgofion cyn-filwyr ac unigolion, Hedd Wyn a brwydr Coedwig Mametz.¹¹ Gellir

7 Ni fuddsoddodd ITV Wales yn y genre am nad oedd cymaint o ofyn ar ITV i greu cynnwys lleol yn ystod y cyfnod dan sylw. Nodwyd yn yr Archwiliad Cyfryngau diweddaraf gan y Sefydliad Materion Cymreig fod y broses o gyfuno cwmnïau ITV yn yr 1990au – a arweiniodd at gwmni unigol ITV plc erbyn 2002 – yn golygu bod llai o gynyrchiadau yng Nghymru. Komorowski, M. (2021), Institute of Welsh Affairs Media Audit 2020 (Cardiff: Institute of Welsh Affairs). <https://www.iwa.wales/wp-content/media/IWA_MediaAudit2020.pdf> [Cyrchwyd: 15 Tachwedd 2023], t. 12.

8 Ellison, 'World War One on the BBC', t. 125.

9 Ffigyrau gwyllo gan Gwasanaethau'r Gynulleidfau, BBC Wales (2022), e-bost at Naomi Palmer, 5 Ionawr. Cynhyrchwyd rhaglen *Dan Snow on Lloyd George* ar gyfer BBC Wales, a chafodd ei hailddarlledu ar BBC Four fis yn ddiweddarach.

10 Dillon, *History on British Television*, t. 22.

11 Mae'n werth nodi nad oes unrhyw raglen, nac unrhyw sôn am Wrthryfel y Pasg a gwersyll Frongoch,

ystyried y pynciau hyn yn rhan annatod o naratif Cymreig y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cyn-filwyr ac eraill yn rhannu eu hatgofion o'r rhyfel

Ym mis Awst/Medi 2014, ychydig dros gan mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, darlledwyd rhaglen dwy ran o'r enw *Welsh Memories of World War I* (BBC Wales, 27 Awst 2014). Ynddo ceir y nifer mwyaf mewn unrhyw raglen ddogfen yn y Gymraeg neu'r Saesneg o gyfranwyr o Gymru yn rhannu eu hatgofion rhyfel. Yn ei chyflwyniad fel trosleisydd, mae'r actores o Gymru, Mali Harries, yn crynhoi'r cynnwys:

The generation of Welshmen who fought in the First World War is now long gone. The old soldiers have all passed away. What survives is their first-hand testimony, along with that of the women and children they left behind, recorded in interviews, filmed over the last decades of the twentieth century.¹²

Ni fyddai milwyr wedi profi'r rhyfel yn union yr un ffordd, ac mae'r atgofion yn bersonol i'r unigolyn. Esbonia Emma Hanna:

The presence of living veterans and the memory of the dead act to prime the social consciences of generations to follow. They have also provided a more tangible and emotional history than any print media as documentary films have recorded the recollections of these men in their own words, as living human beings.¹³

Yn bendant, mae cyfraniad yr hen ddynion yn hoelio'r sylw. Gwelwn wynebau cyfarwydd o raglenni Cymraeg, megis Griffith R. Williams a Bob Owen,¹⁴ yn ogystal â chyfraniadau yn y Gymraeg gan rai, megis O. M. Roberts ac Ifan Gruffydd (awdur *Gŵr o Baradwys*), nad ydynt yn ymddangos yn y rhaglenni Cymraeg.¹⁵

Ni cheir mewnbwn gan arbenigwyr yn y rhaglen a daw tystiolaeth cyfranwyr y rhaglen

yn y rhaglenni Saesneg o dan sylw. O ystyried y tair rhaglen Gymraeg sy'n sôn yn benodol am y gwrthryfel a'r gwersyll (*Frongoch, Frongoch: Man Geni'r IRA, a Rebels Iwerddon gyda Lyn a Dylan Ebenezer*), mae'n werth nodi'r diffyg sylw hwn. Gwefan BBC (2016), 'BBC marks 100 years since the Easter Rising across TV, Radio and Online', 1 Mawrth. <<https://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2016/easter-rising>> [Cyrchwyd: 20 Chwefror 2024]; Ellison, 'World War One on the BBC', 125.

12 Mali Harries yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 1) (2014), BBC Wales, 27 Awst. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/07948DBF?bcast=114013265>> [Cyrchwyd: 5 Ionawr 2024], 4'42.

13 Hanna, E. (2009), *The Great War on the Small Screen: Representing the First World War in Contemporary Britain* (Edinburgh: Edinburgh University Press), t. 85.

14 *Y Rhwyg* (1988), Teliesyn, 13 Tachwedd; *Hel Straeon/Clasuron Hel Straeon* (Pennod 59 – Griffith R. Williams) (2000), Seiont, 9 Ionawr; *Canrif y Werin* (Rhaglen 2 – 'Y Rhyfel Mawr') (2000), HTV Wales, 15 Ionawr.

15 Gruffydd, I. (1963), *Gŵr o Baradwys* (Dinbych: Gwasg Gee).

o gyfweiliadau a recordiwyd yn ystod dau ddegawd olaf yr ugeinfed ganrif. Gweler bod sawl cyfraniad wedi'u cymryd o *Shadows on the Western Front* (BBC Wales, 13 Tachwedd 1994). Yn yr un modd â'r rhaglen honno, er y cryfder emosiynol nid oes cyd-destun i'r holl frwydro; nid yw'r cyn-filwyr yn dweud pam oeddent yn ymladd.¹⁶ Cyfaddefodd y glöwr Irving Jones nad oedd yn deall y goblygiadau: 'We thought, well, bit of a holiday maybe'.¹⁷ Mae'n bwysig cofio nad oedd pob milwr wedi ymrestru yn wirfoddol; roedd nifer wedi'u gorfodi i ymrestru o ganlyniad i orfodaeth filwrol.¹⁸ Percy Williams oedd un o'r rheini: 'I was hoping and hoping that the war would be finished before I was called up. You may call me a bit of a coward, but I didn't want to join the army'.¹⁹ Mae rhoi sylw i ansicrwydd cyn-filwyr am fynd i ryfel yn anghyffredin mewn rhaglenni, a hynny gan fod y sylw fel arfer yn cael ei roi i erchylltra rhyfel.

Canolbwynt cynnwys y rhaglen yw'r Ffrynt Gorllewinol. Ceir ymatebion emosiynol a graffig o erchyllterau a gwastraff rhyfel, o bosibl o ganlyniad i'r cwestiynau a ofynnir gan y cynhyrchwyr, a'r modd y golygwyd y rhaglen, a oedd yn ceisio creu 'shock value'.²⁰ Datgana Janet Watson, 'The received history of the war starts with idealistic volunteers and ends with shattered veterans', a dyna'n union yw'r argraff a roddir gan y detholiad o storïau'r cyn-filwyr yn y rhaglen.²¹ Wrth rannu barn ac atgofion, mae emosiynau Bob Owen yn bwerus. Clywn y dicter yn ei lais, mewn modd na wneir yn y rhaglenni Cymraeg:

The age of between 17 and 23 or 24, it's a lovely time of your life and you had to be fighting in a war and your friends, and hundreds of them being killed, thousands of them being killed. There's no doubt about that the cream, the cream age were killed, it was unnecessary. What for? ... My attitude would now, if there was a big major war, let ... send the MPs, let them go and fight it amongst themselves.²²

I atgyfnerthu hyn, ceir disgrifiadau graffig o'r meysydd brwydro ac o'r marwolaethau a fu arnynt. Siaradai Bob Owen yn ddidaro ac yn uniongyrchol: 'The first shock of people being killed only lasts about three or four days ... you could get used to seeing people

16 Matthews, 'Rhwng Ffaith a Ffuglen', t. 251; Hanna, *The Great War on the Small Screen*, t. 15 a t. 65.

17 Irving Jones yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 1), 10'24; adleisio Griffith Williams yn y rhaglenni Cymraeg.

18 Barlow, R. (2014), *Wales and World War One* (Llandysul: Gwasg Gomer), t. xv.

19 Percy Williams yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2) (2014), BBC Wales, 3 Medi. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/079D7BA4?bcast=114131088>> [Cyrchwyd: 6 Ionawr 2024], 15'58; van Emden, R., a Humphries, S. (1998), *Veterans: The Last Survivors of the Great War* (Barnsley: Leo Cooper), tt. 26–7.

20 Matthews, 'Rhwng Ffaith a Ffuglen', tt. 244–5 a t. 250; Todman, D. (2005), *The Great War: Myth and Memory* (London: Hambledon Continuum), t. 41; Hanna, *The Great War on the Small Screen*, t. 65.

21 Watson, J. (2004), *Fighting Different Wars: Experience, Memory, and the First World War in Britain* (Cambridge: Cambridge University Press), t. 5; Gaffney, A. (1998), *Aftermath: Remembering the Great War in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), t. 1.

22 Bob Owen yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 30'39.

being killed round about you'.²³ Wrth siglo ei ben ac adrodd mewn modd pragmataidd am glirio'r meysydd brwydro, dyweda Harry Hillman: 'You'd go out with a couple of sandbags and you'd pick up an arm here, a heart there, a head there, a torso somewhere else. God knows what ... Those are the horrible things that I don't want to talk about'.²⁴ Yr hyn sy'n drawiadol am y disgrifiadau hyn yw eu bod yn normaleiddio marwolaeth fel rhan o fywyd dyddiol y milwyr, yn ogystal â'r ofn parhaol fel y mae Percy Williams yn tystio: 'For the first time I realised that I ... may die. And I'd never experienced anything like it before. And I was terrified'.²⁵ Dyma ddynion dewr a oedd yn disgwyl gwneud yr aberth eithaf, ond a oroesodd ac a fu'n byw gydag atgofion y rhyfel am weddill eu bywydau.²⁶

Am y tro cyntaf, clywn gyn-filwyr yn siarad mewn modd emosiynol am ladd cyd-ddyn a cholli ffrindiau. Nodir bod ymdeimlad o geisio cyfiawnhau'r gweithredoedd trwy ddefnyddio geiriau fel 'I got to', 'I had to' ond eu bod yn flin amdano. Mae'n amlwg bod Griffith R. Williams yn teimlo'n anghyfforddus er gwaetha'r modd plaen y mae'n siarad amdano: 'I got to kill, I got to kill ... I don't know how many, lots and lots and lots, solid for three hours. Yes I did. I killed a lot. I got to do it. I got to be a murderer'.²⁷ Dyweda cyn-filwr arall (di-enw): 'I'm sorry for those that I destroyed, but I had to do it. It was either them or me'.²⁸ Esbonia Joanna Bourke, 'most servicemen killed the enemy with a sense that they were performing a slightly distasteful but necessary job'.²⁹ Profiad a effeithiodd yn fawr ar filwyr, nad yw'n derbyn sylw digonol mewn rhaglenni yn gyffredinol, oedd colli ffrindiau. Cofia Bob Owen ddau siel yn cwmpo ar y cwt lle yr oedd ef a'i gyd-filwyr. Lladdwyd ei gyfaill, Alf Haslock, a bu'n rhaid iddo adael Frank Mellor oedd wedi ei anafu: 'That affected me very much indeed. Losing those two fellows affected me – in fact, it affected me all my life'.³⁰ Felly yn ystod y blynyddoedd wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, daeth y dynion i edrych ar y profiad fel un dinistriol a effeithiodd yn andwyol ar y goroeswyr.³¹

23 Ibid. (Rhan 1), 19'32; Todman, *The Great War: Myth and Memory*, t. 9; van Emden a Humphries, *Veterans*, t. 123.

24 Harry Hillman yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 1), 23'21.

25 Percy Williams yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 4'46.

26 Todman, *The Great War: Myth and Memory*, t. 20.

27 Griffith R. Williams yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 1), 25'56; Diddorol nodi na wnaeth Griffith R. Williams sôn am hyn yn ei lyfr: Williams, G. R. (1990), *Cofio Canrif* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd) na chwaith yn ei gyfraniadau at raglenni eraill.

28 Cyn-filwr dienw yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 1), 5'34.

29 Bourke, J. (2000), *An Intimate History of Killing: Face-to-Face Killing in Twentieth-Century Warfare* (London: Granta Books), t. 166.

30 Bob Owen yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 1), 22'42; Llwyd, A. (2018), *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914–1918* (Llandysul: Gomer), t. 135; Gaffney, *Aftermath: Remembering the Great War in Wales*, t. 167; Hanna, *The Great War on the Small Screen*, t. 72; ceir atgof tebyg gan Harry Patch yn sôn am golli cyfeillion, 'My reaction was terrible, it was like losing a part of my life', yn van Emden a Humphries, *Veterans*, t. 141.

31 Todman, D. (2005), 'The First World War in Contemporary British Popular Culture', yn Jones, H., O'Brien, J., a Schmidt-Suppran, C. (goln), *Untold War: New Perspectives in First World War Studies* (Boston: Brill Academic), t. 418; Renard, V. (2008), "Reaching out to the Past": Memory in Contemporary British First World War Narratives', yn Meyer, J. (gol.), *British Popular Culture and the First World War* (Boston: Brill Academic), t. 286.

I barhau â'r portread o erchyllterau Ffrynt y Gorllewin, ceir disgrifiadau graffig o ymosodiadau nwy mewn modd nas ceir i'r un graddau yn y rhaglenni Cymraeg. Ceir ymateb corfforol gan Harry Hillman, sy'n dal ei wyneb ac yna'n cau ei lygaid wrth ddisgrifio'r profiad: 'It got into your lungs, in your nose, in your eyes ... There were the two sorts of gas ... that lethal stuff that strangled you and the mustard gas which blinded you'.³²

I ategu at hyn, disgrifiodd yr hyn a welodd ar faes y gad yn dilyn ymosodiad nwy, gan gymryd seibiau emosiynol wrth esbonio:

One of the things I saw was ... [saib] men fall [anadl ddwfn] unable to go any further, unable to breathe [saib, anadl ddwfn] and big men asking in so much pain that they begged passing soldiers to shoot them, to put them out of their misery. I saw it.³³

Disgrifir ymosodiadau nwy fel 'every soldier's worst nightmares'.³⁴ Mae profiadau Percy Williams yn dyst i hynny:

There was a gas attack before, and we had to, course had to put on our gas masks and the gas mask got covered with a film and *you couldn't see!* And then I was faint-hearted and sick and I felt sick and I had to spew up my [dal llaw i'w wyneb] ... and I know that I was *absolutely* terrified for hours.³⁵

Er bod degawdau ers y digwyddiad, roedd yr ofn yn lleisiau ac ar wynebâu'r cyn-filwyr wrth adrodd eu hatgofion yn amlwg. Nid oedd rhai cyn-filwyr am siarad am eu profiadau o gwbl.³⁶

Ceir atgofion y rheini a oedd ar y ffrynt cartref hefyd, fel sydd i'w weld yn y rhaglenni Cymraeg.³⁷ Mae'n werth nodi'r defnydd o ddyfyniad Cymraeg mewn rhaglen Saesneg a'r ffaith bod hyn yn unigryw o fewn y rhaglenni. Wrth iddo sôn am yr ofn mewn cymunedau, dyweda O. M. Roberts:

Yr adeg honno sylweddolwyd beth o'dd effaith neu beth o'dd dylanwad ac erchylltra'r rhyfel. Pan dechreuodd bechgyn ddod yn ôl 'di cael eu

32 Harry Hillman yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 8'13; Ivor Watkins yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 8'51.

33 Harry Hillman yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 9'28.

34 Padley, A. P. (2016), 'Gas: The greatest terror of the Great War', *Anaesth Intensive Care - History Supplement*, 24; Jones, E. (2014), 'Terror Weapons: The British Experience of Gas and Its Treatment in the First World War', *War in History*, 21 (3), 357.

35 Percy Williams yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 17'06.

36 Jenkins, G. (2014), *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Talybont: Y Lolfa), t. 211.

37 Caiff rhain eu cynnwys yn hwyrach yn yr erthygl wrth drafod rhaglen Deirdre Beddoe, *Welsh Women of World War One* (2016), Green Bay Media a Deborah Perkin Media, 12 Gorffennaf, a rhaglen Ifor ap Glyn, *Hedd Wyn: The Lost War Poet* (2017), Cwmni Da, 5 Awst.

clwyfo, a pan hefyd oedd 'na negeseuon, telegramau yn cyrraedd y pentref i ddweud bod bechgyn wedi'u lladd yn y rhyfel ... pan oeddwn ni'n gweld y bachgen yn mynd ar feic coch, roedden ni'n ofni y gwaetha'.³⁸

A chyda diwedd y rhyfel, golyga'r cadoediad gwahanol bethau i wahanol bobl yn ddibynnol ar eu profiadau rhyfel. Gwelwn hyn yng nghyfraniad Enid Morris (chwaer Hedd Wyn):

Dw i'n cofio diwedd y rhyfel. A o'dd pawb yn rhoi baneri ac ati allan ond wel, o'dd o'n rhywsut, doeddech chi ddim yn medru rhoid baneri r'un fath nag oeddech, os o'ch chi 'di colli rhywun, ac o'n 'na lawer iawn wedi colli rhywun.³⁹

Hubert Williams yw llais olaf y rhaglen: 'Those that didn't come back, that's the people that should be honoured, those that didn't, they gave their life and *that is it*'.⁴⁰ Mae hyn yn bwynt diddorol sy'n gallu cael ei ddehongli mewn amryw o ffyrdd. A yw Hubert Williams yn siarad o brofiad personol? A yw'n awgrymu y dylai milwyr a gafodd eu lladd gael eu hanrhydeddu uwchlaw ymdrechion y milwyr hynny a wnaeth ddychwelyd o'r rhyfel ac ymdrechion y ffyrnt cartref? Ond fel sy'n cael ei nodi uchod, bu'r milwyr a gafodd eu lladd a'r rheini a ddychwelodd i gyd yn ddynion dewr a oedd yn disgwyl gwneud yr aberth eithaf, a bu'r rheini a oroesodd yn byw gydag atgofion o'u profiadau rhyfel am weddill eu bywydau.

Brwydr Coedwig Mametz

Yng Ngorffennaf 1916, collwyd 4,000 o filwyr o Gymru ym mrwydr Coedwig Mametz. Yn ôl Gwyn Jenkins, hon oedd 'y lladdfa fwyaf o Gymru ers dyddiau Owain Glyndŵr', sy'n sicr yn cyflwyno'r frwydr fel un Gymreig.⁴¹ Teithiodd y chwaraewr rygbi, Gareth Thomas, i Ffrainc gyda'i rieni er mwyn darganfod hanes ei ddau hen-ewythr, William ac Edward Thomas, ym Mrwydr y Somme, ac i ddysgu am frwydr Coedwig Mametz. Dyma daith emosiynol i'r teulu, fel yr esbonia Gareth Thomas:

I'm extremely proud of the fact they went to battle and gave their lives for our country. So for me, I don't want them to be forgotten *ever*! And I feel it's a really important part of who I am to be able to find out who

38 O. M. Roberts yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 23'04; Elizabeth Williams yn *Canrif y Werin* (Rhaglen 2 – 'Y Rhyfel Mawr') (2000), 21'06; Todman, *The Great War: Myth and Memory*, t. 43.

39 Enid Morris yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 26'35; van Emden, R., a Humphries, S. (2003), *All Quiet on the Home Front: An Oral History of Life in Britain during the First World War* (London: Headline Book Publishing), t. 296; Todman, *The Great War: Myth and Memory*, t. 50.

40 Hubert Williams yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 32'16.

41 Michael Renshaw yn adrodd y ffigwr 3803 o filwyr ac 190 o swyddogion yn *Welsh on the Somme: Mametz Wood* (2015) (Barnsley: Pen and Sword), t. 126; Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*, t. 147.

they are.⁴²

Cymro gwlatgar sy'n falch o'i wreiddiau yn y Cymoedd yw Gareth Thomas, ac mae ei awydd i ddarganfod hanes ei deulu yn amlwg. Rhan o apêl a phoblogrwydd Gareth Thomas yw ei fod yn hoffus iawn a theimla'r gynulleidfa ei bod yn medru uniaethu ag ef a'i bod ar y daith hon gydag ef.⁴³ Un o amcanion y cwmni cynhyrchu oedd: 'that he would help to appeal to a different demographic of people... those who might not normally be interested in history'.⁴⁴ Wrth iddo grynhoi'r daith emosiynol ar ddiwedd y rhaglen, dyweda:

Sometimes you think you do things in life, can't make you anymore proud and I thought playing for Wales was for me the ultimate thing but I think finding out this story and not just of William and Edward but the story of everybody is definitely a moment that matches any pride I had when I wore a Welsh rugby jersey.⁴⁵

Ochr yn ochr â hanes y milwyr o Gymru, ceir ystyriaeth hefyd o'r milwyr o'r Almaen. Yn ôl Jonathan Hicks, 'descriptions of the fighting for Mametz Wood sometimes neglect the German accounts, with an over-reliance on the British perspective without seeing the battle from the German side'.⁴⁶ Wrth iddo gloddio gydag archaeolegwyr yn y goedwig darganfyddir darn o esgid milwr o'r Almaen, a disgrifia Gareth Thomas ei deimladau: 'I'm holding them and it's like chills ... it puts a human element into war really'.⁴⁷ Yn hwyrach, darganfyddir esgyrn milwr o'r Almaen: 'This person has a story to tell. He has a family I'm sure, he has a history and he doesn't deserve to be left'.⁴⁸ Yn y rhan hon o'r rhaglen, gwelwn Brigitir Verber, sy'n berthynas i ddau frawd o'r Almaen, Albert a Bernhard Fang, a oedd yn filwyr. Bu farw Albert yn ardal Mametz ac fel y mae Brigitir Verber yn ei grynhoi: 'The same fate connects us – they were much too young to die'.⁴⁹ Nid oes enghraifft o unrhyw un o'r rhaglenni Cymraeg yn rhoi llwyfan o'r fath i deulu o filwr o'r Almaen ond gweler enghreifftiau o sylw i brofiadau'r Almaenwyr yn *Y Rhwyg* (Teliesyn, 13 Tachwedd 1988) wrth i John Davies ymweld â mynwent yn Ffrainc lle y claddwyd milwyr o'r Almaen. Mae Iolo Williams a Hywel Teifi hefyd yn rhoi sylw i brofiadau milwyr o'r Almaen yn y gyfres *Cerdded y Llinell* (Pennod 1, 'Ypres-Messines', Tinopolis, 24 Hydref 2004) ac yn *Byd o Liw*

42 Gareth Thomas yn *Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood* (2016), Bearhug TV for BBC Wales, 4 Gorffennaf. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/0CDAB3A3?bcast=122017311>> [Cyrchwyd: 1 Chwefror 2024], 6'45.

43 Gareth Thomas yn *Wales at the Somme*, 37'51; Dillon, *History on British Television*, t. 7.

44 Quinlan-Flatter, K. (2015), 'BBC TV documentary explores the Somme with rugby player Gareth Thomas', *Centenary News*, 1 Hydref, <<https://www1centenarynewsarchive.com/posts/bbc-tv-documentary-explores-the-somme-with-rugby-player-gareth-thomas-10565/>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024].

45 Gareth Thomas yn *Wales at the Somme*, 59'05.

46 Hicks, J. (2016), *The Welsh at Mametz Wood: The Somme 1916* (Talybont: Y Lolfa), t. 296.

47 Gareth Thomas yn *Wales at the Somme*, 17'05.

48 Gareth Thomas yn *Wales at the Somme*, 42'43.

49 Brigitir Verber yn *Wales at the Somme*, 40'26.

(Zip TV, 10 Ionawr 2008) wrth i Osi Rhys Osmond roi sylw i waith arlunwyr o'r Almaen.



Ffigur 1: Lluniau o'r pedwar ewythr ochr yn ochr, Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood (2016), *Bearhug TV for BBC Wales*, 4 Gorffennaf, 40'32. © Bearhug TV - trwy ganiatâd caredig.

Mae'r hanesydd milwrol Andy Robertshaw yn datgelu amodau marwolaethau Edward a William Thomas.⁵⁰ Profiad emosiynol i'r teulu oedd dysgu i William, ynghyd â milwr arall, gael eu lladd gan siel Almaenig ger pentref Aveluy. *Pioneer* oedd William Thomas, ac un o brif ddyletswyddau *pioneer* oedd cynnal a chadw heolydd a thraciau. Mewn mynwent gyfagos, ceir 16 o feddau milwyr anhysbys gyda dyddiad y 3ydd o Orffennaf ar bedwar ohonynt – y dyddiad y bu farw William Thomas. Ynghanol yr emosiwn o ddysgu'r hanes a'r posibilrwydd o sefyll ger bedd William Thomas, mae Barry Thomas yn nodi'r arwyddocâd: 'This will always be a special little village'.⁵¹ Mae Andy Robertshaw hefyd yn esbonio i'r teulu bod Edward Thomas yn un o 80 o ddynion a laddwyd yn ddamweiniol gan ei ddynion ei hun mewn ymosodiad yn ystod y nos. Yn nryswch y tywyllwch, fe saethodd milwyr y Cynghreiriaid at dir neb gan feddwl eu bod yn saethu at yr Almaenwyr, ac yn ddamweiniol, fe saethasant at eu dynion eu hunain.⁵² Claddwyd nifer ohonynt yn nhir neb a bellach gweler enwau Edward a William Thomas ar gofeb Thiepval.

Rhoddir mwy o fanylder cynhwysfawr am y frwydr yn y rhaglen hon nag unrhyw raglen arall, Cymraeg neu Saesneg. Yn wahanol i gynnwys y rhaglenni dogfen Cymraeg, ceir tîm cloddio archaeolegol yn y goedwig (a hynny am y tro cyntaf) sy'n allweddol i'r portread o'r frwydr yn y rhaglen. Ymgwymerodd Gareth Thomas â'r gwaith cloddio ac yn aml ystyriai brofiadau'r milwyr ar y ddwy ochr. Wrth iddo glywed gan yr hanesydd Steve Roberts am y

⁵⁰ Edward Thomas oedd ewythr Vonnice (Mam Gareth Thomas). Ni cheir unrhyw gyfeiriad at waith 'pioneers' yn y rhaglenni Cymraeg: Andy Robertshaw, *Wales at the Somme*, 30'40; Mitchinson, K. W. (2014), *Pioneer Battalions in the Great War: Organized and Intelligent Labour* (Barnsley: Pen and Sword Books), t. 129, t. 139 a t. 143; Bowden, W. G. (1984), *Abercynon to Flanders and Back* yn cael ei ddyfynnu yn Llwyd, A. (gol.) (2008), *Out of the Fire of Hell: Welsh Experience of the Great War 1914–1918 in Poetry and Prose* (Llandysul: Gomer Press), t. 135.

⁵¹ Barry Thomas yn *Wales at the Somme*, 34'06.

⁵² Andy Robertshaw yn *Wales at the Somme*, 55'21.

cyhuddiadau o ddiffyg ymdrech ac ymrwymiad y milwyr o Gymru, ceir ymateb angerddol ganddo (*italics* i ddangos pwyslais):

SR (Steve Roberts): there's an accusation made that the men here have a lack of determination and lack of resolve.

GT (Gareth Thomas): *Wow!*

[...]

GT: I'm standing here now right, I bet every single man that stood here on that day facing what they had to face, taking an inch after inch, and only taking an inch after they'd lost a life, then they could take another inch, don't tell me that somebody stood here and *wasn't brave!*⁵³

Datgelwyd bod chwarel anferth yn y goedwig a chyfres o ffosydd dwfn a oedd yn ganolfan reoli i'r Almaenwyr, nad oedd ar fapiau rhyfel y Prydeinwyr/Cymry yn 1916, sy'n esbonio'r amgylchiadau heriol a wynebai'r milwyr o Gymru (gweler ffigur 2).

⁵³ Steve Roberts a Gareth Thomas yn *Wales at the Somme*, 20'40.



Ffigur 2: Map o gyfnod 1916, coedwig Mametz yn y system 'laser mapping' a ffosydd yr Almaenwyr yng Nghoedwig Mametz a ddarganfyddwyd drwy'r system 'laser mapping', Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood (2016), Bearhug TV for BBC Wales, 4 Gorffennaf, 47'28 a 51'48. © Bearhug TV – trwy ganiatâd caredig.

Roedd yn bosibl gweld y rhain trwy system ‘laser mapping’ cyfoes, sy’n gweld trwy’r coed a’r istyfiant. Yn ôl Richard Osgood, arweinydd y tîm archaeolegol:

We were racking our brains trying to think of anything comparable on the entire Somme battle front ... the scale of this thing, it’s colossal. The Welsh troops don’t know about it because it’s not on the maps ... and they’re coming straight at it through the woods from down there. It just shows the sheer endeavour and the heroism of those men a hundred years ago to succeed against the odds like this.⁵⁴

Collwyd cyfle yn ystod cyfnod y canmlwyddiant i ailedrych ar y frwydr mewn rhaglen Gymraeg eu hiaith, ac i gyflwyno gwybodaeth newydd a ddaeth i’r amlwg rhwng y 1980au a’r presennol. Mae’r rhaglen hon yn Saesneg yn llwyddo i ychwanegu at wybodaeth y gynulleidfa o’r frwydr hon sydd mor bwysig o ran dealltwriaeth o’r Rhyfel Byd Cyntaf o safbwynt Cymreig.

Hedd Wyn

Brwydr arall a ddaeth yn rhan o hanes rhyfel y Cymry oedd brwydr Pilckem Ridge (neu Trydydd Cyrch Ypres) ym mrwydr Passchendaele, a hynny oherwydd stori Hedd Wyn. Nid oes angen pwysleisio pwysigrwydd y stori hon i gynulleidfaoedd Cymru, ond sut mae cyfleu’r stori i gynulleidfa ddi-Gymraeg ac i gynulleidfaoedd y tu hwnt i Gymru? Darlledwyd fersiwn Gymraeg y rhaglen, *Hedd Wyn: Canrif o Gofio* ar S4C ar 6 Medi 2017, sef canmlwyddiant y dyddiad yr enillodd Hedd Wyn y Gadair yn Eisteddfod Birkenhead yn 1917, a darlledwyd y fersiwn Saesneg, *Hedd Wyn: The Lost War Poet*, ar 5 Awst 2017. Ond mae ei stori yn llai amlwg i gynulleidfaoedd y tu hwnt i Gymru, sy’n cael ei adlewyrchu yn y ffaith nad yw ei stori’n ymddangos mewn rhaglenni dogfen am y Rhyfel Byd Cyntaf y tu hwnt i’r ffin. Ceir ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig yn y stori hon, a gysylltir yn uniongyrchol ag agweddau a ystyrir yn nodweddiadol o ddiwylliant Cymreig: yr Eisteddfod, barddoniaeth/llenyddiaeth, y Gymraeg a chefn gwlad Cymru. Robin Barlow sy’n crynhoi hyn orau: ‘Hedd Wyn has almost come to symbolise Wales and the First World War’.⁵⁵

Yn gyffredinol, cyflwynir y stori yn union yr un modd ag y cyflwynir y stori mewn rhaglenni Cymraeg, ond caiff rhai agweddau ar stori Hedd Wyn eu hesbonio’n wahanol i gynulleidfa ddi-Gymraeg, na fyddai ganddynt o bosibl wybodaeth gefndirol neu erioed wedi clywed am Hedd Wyn neu am rai o draddodiadau’r Cymry Cymraeg. Mae’r dyfyniad ‘Who was Hedd Wyn?’ yn nheitl yr erthygl yn dod o’r rhaglen Saesneg hon. Mae angen egluro pwy oedd Hedd Wyn, darlunio ei fywyd yn Nhrawsfynydd, cyflwyno ei farddoniaeth a thraddodiadau’r Eisteddfod er mwyn esbonio trasiedi’r stori a gosod cyd-destun pwysigrwydd y stori i Gymru. Esbonia Ifor ap Glyn: ‘Although Hedd Wyn wrote in Welsh, his tragic story

⁵⁴ Richard Osgood yn *Wales at the Somme*, 52’08.

⁵⁵ Barlow, *Wales and World War One*, t. 152.

transcends language'.⁵⁶ Ceir cyfieithiadau o'i waith erbyn hyn yn y Ffrangeg, y Fflemeg a'r Saesneg, ac o ystyried y llu o lyfrau, erthyglau, a chyfeiriadau mewn rhaglenni dogfen Cymraeg am y rhyfel (bron pob un ohonynt) a ffilm amdano, nid oes braidd dim sylw iddo mewn cyhoeddiadau a chynyrchiadau Saesneg. Er y codwyd proffil Hedd Wyn trwy ffilm *Hedd Wyn* (cyf. Paul Turner, Pendefig Tŷ Cefn a S4C, 1992), mae'n annhebygol fod plant ysgolion Saesneg eu hiaith yn dysgu am Hedd Wyn, fel y gwneir mewn ysgolion Cymraeg.


Yng nghyflwyniad y rhaglen Saesneg, esboniwyd y traddodiad hir yng Nghymru o ddatlu ein beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ddefnyddio'r cyflwynydd Ifor ap Glyn fel enghraifft. Ef oedd enillydd y Goron yn 1999 a 2003, ac ef oedd Bardd Cenedlaethol Cymru rhwng 2016 a 2022.⁵⁷ Wrth sefyll ger bedd Hedd Wyn, esbonia, 'Only those who have won a chair or a crown at a National Eisteddfod are entitled to be called Prifardd or Chief Poet'.⁵⁸ Wrth gyflwyno gwaith barddonol Hedd Wyn, esbonia Ifor ap Glyn y mathau gwahanol o gynghanedd gan ddefnyddio enghreifftiau yn y Saesneg (gweler ffigur 3 isod).⁵⁹

⁵⁶ Ifor ap Glyn yn *Hedd Wyn: The Lost War Poet* (2017), Cwmni Da, 5 Awst. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/0F6C8EA1?bcast=127747653>> [Cyrchwyd: 11 Ionawr 2024], 3'03.

⁵⁷ Awdur Anhysbys, 'Gwaith Creadigol Ifor ap Glyn', Llenyddiaeth Cymru. <<https://www.llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/bardd-cenedlaethol-cymru/ifor-ap-glyn-gwaith-creadigol/>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024]; Awdur Anhysbys, 'Ifor ap Glyn: Bardd Cenedlaethol Cymru 2016-2022', gwefan Llenyddiaeth Cymru. <<https://www.llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/bardd-cenedlaethol-cymru/ifor-ap-glyn-bardd-cenedlaethol-cymru-2016-2022/>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024].

⁵⁸ Ifor ap Glyn yn *Hedd Wyn: The Lost War Poet*, 44'15.

⁵⁹ Ibid., 9'10. Mae'n cyfeirio at dair ffurf wahanol o gynghanedd, ond mae'r drydydd yn cyfuno cynghanedd draws a chroes.



*Ffigur 3: Ifor ap Glyn yn esbonio cynganedd trwy ddefnyddio enghreifftiau Saesneg, Hedd Wyn: The Lost War Poet (2017), Cwmni Da, 5 Awst, 9'09.
© Cwmni Da - trwy ganiatâd caredig.*

Er mwyn dod dros yr anhawster ieithyddol, mae Ifor ap Glyn yn darllen cerddi Hedd Wyn yn Gymraeg gyda chyfieithiad Saesneg ar y sgrin. Mae'r dewis o gerddi Hedd Wyn yn dangos rhai o brif themâu ei waith, sef y tirlun, natur, a'i gariad at ei ardal a'i gymuned, a dylanwad y pethau hynny ar ei waith. Disgrifia Alan Llwyd Hedd Wyn fel 'bardd ei fro a'i gymdeithas ... Roedd Hedd Wyn a Thrawsfynydd mor anwahanadwy'.⁶⁰ Ceir mwy o bwyslais yn y rhaglen Saesneg ar esbonio pwysigrwydd cartref Hedd Wyn, yr Ysgwrn, ac

⁶⁰ Llwyd, A. (2014), *Cofiant Hedd Wyn 1887–1917* (Talybont: Y Lolfa), t. 75; Morris, W. (1969), *Hedd Wyn* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd), t. 34; Ifor ap Glyn yn *Hedd Wyn: The Lost War Poet*, 7'54; cyflwyno'r stori am Hedd Wyn yn symud i Abercynon, gan ddefnyddio'r llinell o'r gerdd 'Hiraeth' yn Gymraeg, 'f'enaidd yn Nhrawsfynydd', ac wedi'i chyfieithu.

esbonio pam fod pobl yn dal i ymweld. Fel yr esbonia Ifor ap Glyn, ‘We remember Hedd Wyn not just as a poet but as a symbol of Welsh loss in World War One ... Hedd Wyn’s legacy lives on in the form of his poems and his home here at yr Ysgwrn’.⁶¹



*Ffigwr 4: plac tu allan i'r Ysgwrn (casgliad personol yr awdur)
[Gorffennaf 2015].*

Mae stori Hedd Wyn yn ymestyn y tu hwnt i Gymru, a gwelwn hyn wrth i Ifor ap Glyn ymweld â Ffrainc a Gwlad Belg gan ddilyn taith Hedd Wyn yno. Mae posibilrwydd na fyddai Cymry di-Gymraeg yn ymwybodol o leoliad bedd Hedd Wyn ym mynwent Artillery Wood a bod cofebau eraill yn yr ardal yn deyrnged iddo ac i'r milwyr o Gymru, megis Cofeb y Cymry yn Fflandrys.⁶² Noda gwefan ‘Visit Flanders’: ‘The surrounding park is dedicated to all Welsh people involved in the Great War, both soldiers and civilians’.⁶³

61 Ifor ap Glyn yn *Hedd Wyn: The Lost War Poet*, 59-18; Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*, t. 185; Williams, G. (1993), *Y Rhwyg: Arolwg o Farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul: Gwasg Gomer), t. 148.

62 Williams, S. (2010), ‘Belgian cafe’s tribute to Welsh war poet Hedd Wyn’, *WalesOnline*, 13 Mawrth, <<https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/belgian-cafes-tribute-welsh-war-1929267>> [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2024].

63 Visit Flanders, ‘Welsh National Memorial Park, Langermark’, <<https://www.visitflanders.com/en/things-to-do/attractions/top/welsh-national-memorial-park-langemark.jsp>> [Cyrchwyd: 15 Ionawr 2022].



Ffigur 5: Placiau amrywiol ger Langermark yn deyrnged i Hedd Wyn (casgliad personol yr awdur) [Mehefn 2018]

Trwy'r holl raglenni, llyfrau, cyhoeddiadau a buddsoddiadau yn yr Ysgwrn, sicrhawyd bod y stori yn cyrraedd cynulleidfaoedd a chenedlaethau newydd, ond mae'n bwysig cofio Hedd Wyn nid yn unig fel 'eicon' ond fel Ellis Evans a oedd yn ffrind, brawd, mab a ffermwr/bugail. Gwelwn William Morris a'i frawd John Morris a hefyd cyn-gariad Hedd Wyn, Jini Owen, yn y rhaglen ar ffurf clipiau o raglen *Hedd Wyn* (HTV 1967). Llwyddda Jini Owen i bortreadu natur heddychlon Hedd Wyn, ac i gyfleu ei theimladau personol hi: 'Buasom ni'n caru am dair blynedd. Oedd o'n biti calon fod yn rhaid iddo fo fynd i'r fyddin o gwbl achos o'dd e *ddim yn ddyn* i fynd i'r fyddin. Oedd o'n ysbryd rhy addfwyn'.⁶⁴ Yn ei lyfr am

⁶⁴ Jini Owen yn *Hedd Wyn* (1967), clip o *Hedd Wyn: The Lost War Poet*, 22'04. Mae'r dyfyniad yn y Gymraeg ond ceir cyfieithiad yn y fersiwn Saesneg o'r rhaglen a defnyddir is-deitlau dros y clip.

ei gyfaill, dywed William Morris: ‘cymeriad hoffus y cawsom y fraint o’i adnabod’.⁶⁵ Erbyn hyn, mae’r atgofion gan deulu a chyfeillion yn hynod o werthfawr ac yn roi ymdeimlad i ni o natur ei gymeriad gan y rheini a oedd yn ei adnabod fel Ellis Evans, ar lefel bersonol, ac fel y noda Gerwyn Williams: ‘Y peryg a gyfyd yn achos Hedd Wyn yw bod chwedl ei farw annhymig yn bygwth cuddio’r dyn’.⁶⁶

Profiadau menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf

Ar bwnc cwbl wahanol, *Welsh Women of World War One* (Green Bay Media a Deborah Perkin Media, 12 Gorffennaf 2016) yw’r unig raglen Saesneg sy’n rhoi sylw yn gyfan gwbl i fenywod Cymru yn ystod y rhyfel, yn debyg i’r rhaglen Gymraeg, *Pwy Sy’n Gwisgo’r Trowsus?* (Boom Pictures Cymru, 27 Medi 2014).⁶⁷ Yng nghyd-destun hanes menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, rhoddir blaenoriaeth i waith nyrsys a menywod yn y ffatrioedd arfau, sy’n aml yn cael eu portreadu fel gwasanaethau cyfwerth â gwasanaeth milwrol.⁶⁸ Mae’r ymchwil academiaidd am fenywod Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn brin, ac er y llu o ymchwil academiaidd am ran menywod yn y rhyfel, parha’r ymdeimlad fod hanes menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei osod ar y cyrion.⁶⁹

Cyflwynir y rhaglen gan Deirdre Beddow, hanesydd blaenllaw a ysgrifennodd yn helaeth ar fenywod Cymru yn ystod y cyfnod modern, ac a gyfrannodd at ymchwil prin ar y pwnc. Ceir cyfyngiadau mewn rhaglenni hanner awr sy’n ei gwneud yn anodd creu portread llawn, e.e. wrth geisio cynnwys cymaint o’r hanes â phosibl, ni ellir mynd i fanylder, sy’n arwain at roi cipolwg yn unig o’r pwnc dan sylw. Gellid ystyried mai un o wendidau’r rhaglen oedd mai ei chanolbwynt oedd Deirdre Beddow yn siarad â menywod sydd â swyddi tebyg i swyddi menywod yn ystod y rhyfel, ac yn rhannu hanesion â hwy am hawliau fenywod ac amodau gweithio’r cyfnod, yn hytrach na defnyddio tystiolaeth a phrofiadau menywod y cyfnod.

Un agwedd ar hanes menywod yn ystod y rhyfel sy’n parhau ar y cyrion yw rôl heddwision benywaidd, a hynny er gwaethaf i 5,000 o fenywod ymgymryd â’r rôl, gyda’u prif ddyletswyddau yn cynnwys monitro ymddygiad menywod.⁷⁰ Hon yw’r unig raglen

⁶⁵ Morris, *Hedd Wyn*, t. 106.

⁶⁶ Williams, *Y Rhwyg*, t. 148.

⁶⁷ Er hynny, ceir cyfeiriadau at hanes menywod a fu’n gweithio yn ystod y rhyfel yn *Welsh Memories of World War I*, *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, *Canrif y Werin* a *Lleisiau’r Rhyfel Mawr*.

⁶⁸ Stori Olwen Jones yn *Canrif y Werin* (Rhaglen 2 – ‘Y Rhyfel Mawr’) a chyfeiriadau at weithwyr ffatri arfau yn *Lleisiau’r Rhyfel Mawr* (Pennod 2 – ‘1916’ a phennod 4 – ‘1918’); Watson, *Fighting Different Wars*, t. 127.

⁶⁹ Beddow, D. (2000), *Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth-Century Wales* (Cardiff: University of Wales Press), t. 47; Braybon, G. (2003), ‘Winners or Losers: Women’s Symbolic Role in the War Story’, yn Braybon, G. (gol.), *Evidence, History, and the Great War: Historians and the Impact of 1914–18* (New York: Berghan Books), t. 97.

⁷⁰ Woodeson, A. (1993), ‘The first women police force: for equality or infringement?’, *Women’s History Review*, 2 (2), 217; Grayzel, S. R. (2002), *Women and the First World War* (Harlow: Pearson), t. 36; Beddow, *Out of the Shadows*, tt. 65–6; Pennell, C. (2012), *A Kingdom United: Popular Responses to the Outbreak of the First World War in Britain and Ireland* (Oxford: Oxford University Press), t. 80.

ddogfen am Gymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf sy'n rhoi sylw i'r cyfraniad hwn gan fenywod. Cyn y rhyfel, byddai swydd heddwys yn cael ei hystyried yn swydd 'wrywaidd' ac er nad oedd yr un swyddog heddlu benywaidd yng Nghymru rhwng y rhyfeloedd, bu'n gyfle i fenywod ddangos eu bod yn gallu ymgymryd â swyddi 'gwrywaidd'.⁷¹

Mewn modd tebyg, ystyriwyd gwaith amaethyddol hefyd, gyda'r amaethwyr yn amheus a allai'r merched ifanc o'r trefi wneud y gwaith.⁷² Yn ôl Thomas George: 'Women were an integral part of the wartime agricultural labour force in Wales, providing valuable assistance in a variety of jobs'.⁷³ Ni chwblhawyd astudiaeth fanwl o weithwyr amaethyddol benywaidd yng Nghymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a cheir diffyg sylw i'w gwaith yn y rhaglenni Cymraeg, er y bu mwy o fenywod yng Nghymru yn ymwneud â gwaith amaethyddol nag unrhyw ran arall o Brydain.

Un o'r menywod hynny oedd Agnes Greatorex a rannodd ei hatgofion yn y gyfres BBC, *All Our Lives*, yn 1994, ac aildddefnyddir y clip yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2). Mae Agnes Greatorex yn dwyn i gof y teimlad o annibyniaeth a phwrpas a roddodd gwaith amaethyddol i fenywod:

When I was a Land Girl I began to feel 'oh I earn £1 a week', I was independent of anybody, nobody bossing me what time to get up, what fire to light, what coal to put on the fire ... I was my own boss nearly! You know, I was told what to do ... I was out there as happy as a lark. I loved it!⁷⁴

Ceir diffyg manylder am yr annibyniaeth newydd i fywydau fenywod yn gyffredinol (nid gweithwyr amaethyddol yn unig), mewn perthynas â ffasiwn ac ymweld â thafarndai.⁷⁵

Cyfeiria Dinah Evans at y cysyniad o 'gylchoedd traddodiadol' a oedd wedi'i seilio ar ddosbarth cymdeithasol, a'r modd y gwnaeth y rhyfel dorri tir newydd o ran y cylchoedd traddodiadol hyn. Mae amryw o enghreifftiau yn y llyfrau hanes o'r gwaith elusennol a gwirfoddol a wnaed gan y dosbarthiadau canol ac uwch. Yn y rhaglen hon, er eu bod yn enghreifftiau prin, cyfeiria Deirdre Beddoe yn benodol at ferched y VAD (*Voluntary Aid Detachment*) a menywod mwy adnabyddus y cyfnod, megis Margaret Lloyd George.⁷⁶

71 Woodeson, 'The first women police force: for equality or infringement?', t. 217.

72 Evans, D. (2016), 'Ymateb Merched Cymru i Ryfel 1914–1918', yn Matthews, G. (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 97; Beddoe, *Out of the Shadows*, t. 66.

73 George, T. (2014), 'Female Agricultural Workers in Wales in the First World War', yn Andrews, M., a Lomas, J. (goln), *The Home Front in Britain: Images, Myths and Forgotten Experiences Since 1914* (Basingstoke and New York: Palgrave Macmillan), t. 104.

74 Agnes Greatorex yn *Welsh Memories of World War I* (Rhan 2), 19'21 a 19'03; Prior, N. (2014), 'How Land Girls helped feed Britain to victory in WW1', *BBC Wales*, 26 Chwefror. <<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-26238755>> [Cyrchwyd: 3 Mehefin 2025].

75 Grayzel, *Women and the First World War*, tt. 63–4; Pennell, *A Kingdom United*, t. 80.

76 Deirdre Beddoe yn *Welsh Women of World War One* (2016), Green Bay Media a Deborah Perkin Media, 12 Gorffennaf. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index>>.

Roedd y chwiorydd, Gwendoline a Mary Davies, yn enwog am fod yn gasglwyr celf, ac yn ystod y rhyfel gwnaethant agor cantinau o'u harian eu hunain ar hyd y Ffrynt Gorllewinol a bu'r ddwy ohonynt yn gwirfoddoli yno o 1916 ymlaen.⁷⁷ Dangosir bod menywod o amrywiol statws yn ymwneud ag ymdrech y rhyfel, ac i'r rhyfel gynnig cyfleoedd na fyddai wedi bod ar gael iddynt yn flaenorol.⁷⁸

Daeth diwedd y rhyfel â chyfnod o newid mawr i fenywod unwaith eto, fel yr esbonia Deirdre Beddoe: 'When the First World War ended, women in Britain lost their jobs on the buses and the trams, on the railways, in the munitions works, they were given a strong clear message, go back to home and duty, your place is in the home'.⁷⁹ Er ei bod yn cyfeirio at Brydain, roedd hyn hefyd yn wir yng Nghymru. Dywed yr hanesydd Deborah Thom fod cyfnod y rhyfel yn gyfnod o newid mawr i fenywod am sawl rheswm: 'Women left home, entered paid work, married, had their first children and entered widowhood in four years'.⁸⁰

David Lloyd George

Darlledwyd *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather* ar BBC Wales ar 7 Rhagfyr 2016, ar ganmlwyddiant David Lloyd George yn dod yn Brif Weinidog. Yn ei rôl fel cyflwynydd, cynigia Dan Snow safbwynt disgynnydd a hanesydd a chydabyddir ganddo mai cymeriad 'cymhleth' oedd David Lloyd George. Wrth ddisgrifio'r profiad o fod yn rhan o raglen am ei hen hen daid, dyweda:

Making this programme and meeting the historians has convinced me that David Lloyd George did make a substantial contribution to Allied victory in the First World War. But he had terrible shortcomings, he was deceitful, he was corrupt and all that means he's not a classic hero. But one-dimensional heroes belong in mythology, not in history. And I think maybe my great-great-grandfather ... was capable of greatness but also

<http://php/prog/0CE6BCE5?bcast=122146906>> [Cyrchwyd: 24 Ionawr 2024], 7'42. Eglura Dinah Evans fod Margaret Lloyd George wedi creu cronfa genedlaethol ar gyfer milwyr o Gymru ac iddi gynnig ei thŷ yng Nghricieth ar gyfer ffoaduriaid o Wlad Belg ('Ymateb Merched Cymru i Ryfel 1914–1918' yn *Creithiau*, t. 98); merched dosbarth canol ac uwch yn bennaf oedd yn rhan o'r VAD; mae William George yn cyfeirio at waith ei chwaer-yng-nghyfraith yn ei lyfr, *My Brother and I* (1958) (London: Eyre and Spottiswoode), t. 102; Watson, *Fighting Different Wars*, t. 109.

77 Deirdre Beddoe yn *Welsh Women of World War One*, 7'56; White, E. (1985), *The Ladies of Gregynog* (Cardiff: University of Wales Press), t. 17; Fairclough, O. (2007), *'Things of Beauty': What Two Sisters Did for Wales* (Cardiff: National Museum of Wales Books), t. 65 a t. 71.

78 White, *The Ladies of Gregynog*, t. 17; Beddoe, *Out of the Shadows*, t. 54; Pennell, *A Kingdom United*, t. 77.

79 Deirdre Beddoe yn *Welsh Women of World War One*, 24'27; Beddoe, D. (1989), *Back to Home and Duty: Women Between the Wars 1918–1939* (London: Pandora), t. 48; Jones, B. (2016), 'Cyn y Gyflafan', yn Matthews, G. (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 25; Braybon, 'Winners or Losers', t. 88.

80 Thom, D. (2000), *Nice Girls and Rude Girls: Women Workers in World War I* (London and New York: I. B. Tauris Publishers), t. 19.

failure.⁸¹

Yn hytrach na phortread ohono fel arwr fel sy'n cael ei gynnig yn aml, cawn bortread o'r ochr llai ffafriol, a llai rhamantus o Lloyd George, ynghyd â'i lwyddiannau.

Ceir portread ohono fel gwleidydd a Phrif Weinidog effeithiol a disgrifia Dan Snow ef fel 'one of the most dynamic and remarkable politicians of his generation ... a radical Liberal, he was determined to reform the system and he did'.⁸² Roedd ganddo apêl am ei fod yn gwybod beth oedd yn ei wneud.⁸³ Yn y rhaglen, dywed Roy Hattersley (un o fywgraffwyr Lloyd George): 'Had Lloyd George not taken over in 1916 nobody can be sure how the war would have gone ... I've no doubt at all that Lloyd George wanted to do the right thing for Britain'.⁸⁴ Gyda diwedd y rhyfel bu Lloyd George yn hynod o boblogaidd ond newidiwyd ei yrfa pan ddaeth yn ffigwr gwleidyddol ymylol ar ôl iddo ymddiswyddo fel Prif Weinidog yn 1922, er iddo barhau yn Aelod Seneddol dros Gaernarfon tan fis Ionawr 1945.⁸⁵ Gofynnna Dan Snow ar ddechrau'r rhaglen: 'Why 100 years after he was made Prime Minister is he not remembered today as a Churchillian figure?'⁸⁶ Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod pwy oedd Winston Churchill, ond tybed faint o bobl fyddai'n gwybod mai David Lloyd George oedd y Prif Weinidog yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, heb sôn am y ffaith mai Cymro ydoedd.

Ceir tebygrwydd rhwng portread Dan Snow a phortread Manon George (yn *David Lloyd George: Yncl Dafydd* (Tinopolis, 20 Rhagfyr 2016)). Mae'r ddau yn feirniadol o'r agweddau hunanol ar ei bersonoliaeth, a'r diffyg ystyriaeth a ddangosodd i'r rhai a aberthodd ar ei gyfer – ei frawd William, ei Wncwl Richard Lloyd, ei wraig Margaret, ei blant, a Frances Stevenson, ei feistres a'i ail wraig.⁸⁷ Mae Dan Snow yn agored iawn o gychwyn y rhaglen am berthynas Lloyd George a Frances Stevenson:

He was a serial womanizer, he was nicknamed 'the goat'. He had such a long and intense relationship with a young secretary, that for many years, he effectively had two wives. I'm descended from Lloyd George's daughter by his first marriage so that side of his character we didn't talk too much

81 Dan Snow yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather* (2017), BBC Wales, 7 Rhagfyr. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/0E1ED249?bcast=123272880>> [16 Tachwedd 2023], 58'03; Campbell, J. (2007), *If Love Were All ... The Story of Frances Stevenson and David Lloyd George* (London: Vintage Books), t. xvi.

82 Dan Snow yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 9'59; Morgan, K. O. (1974), *Lloyd George* (London: George Weidenfeld and Nicolson Limited), t. 201.

83 Deacon, R. (2018), 'David Lloyd George: the Welshman who won World War I', *The Conversation*, 5 Tachwedd, <<https://theconversation.com/david-lloyd-george-the-welshman-who-won-world-war-i-106081>> [Cyrchwyd: 15 Chwefror 2024].

84 Roy Hattersley (cyn AS Llafur, a bywgraffydd Lloyd George) yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 38'05; Morgan, *Lloyd George*, t. 96.

85 Toye, R. (2007), *Lloyd George and Churchill: Rivals for Greatness* (London: Pan Macmillan), t. 6.

86 Dan Snow yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 2'07; Toye, *Lloyd George and Churchill*, t. 410; Deacon, 'David Lloyd George: the Welshman who won World War I'.

87 Hattersley, R. (2010), *The Great Outsider: David Lloyd George* (London: Abacus), t. 259; Morgan, *Lloyd George*, t. 38.

about within the family.⁸⁸

Yn ôl Roy Hattersley, bu Frances Stevenson yn: ‘so discreet that it was only in her autobiography – published twenty years after her husband’s death ... described her feelings for the man who was to dominate her life’.⁸⁹ Am y tro cyntaf mewn rhaglen ddogfen, ceir clip archif o 1970 o Frances Stevenson yn siarad am Lloyd George:

I very often went up to the House of Commons and I would get a ticket for the Ladies Gallery. Then I would go and see him in his room afterwards and have a cup of tea with him and from that time on there wasn’t anybody else but L.G.⁹⁰

Datgelwyd manylion personol am berthynas Frances Stevenson â David Lloyd George, a dderbyniodd sylw mewn rhaglen ddogfen o’r blaen, ac fel disgynnydd, bu’r datgeliadau’n sioc i Dan Snow. Mewn un llythyr oddi wrth Lloyd George at Frances Stevenson:

John Campbell: ‘the idea of our love child will have to go for the time being’. This is important because in early 1915 she discovered that she was pregnant.

Dan Snow: Really? I didn’t know that! ... This was her pregnant coming to terms with the fact that she’s going to have to have an abortion for his career.

JC: Yes for his career.

DS: I’d never heard that story. That’s incredible.⁹¹

Wrth ddadansoddi’r wybodaeth, dangosir yn glir rôl letchwith Dan Snow fel disgynnydd ac fel hanesydd:

Well that was a strange experience, because on one level as a family member, it’s pretty distressing reading about your great-great-grandfather’s love affairs and his aborted love child and an incredible self-obsession and ambition that seemed to have crowded out the feelings of anybody

88 Dan Snow yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 1’37. Olwen Carey-Evans oedd hen nain Dan Snow a’i merch Eluned Jane Evans yn fam-gu iddo; Longford, R. (1996), *Frances, Countess Lloyd George: More than a Mistress* (Leominster: Gracewing), t. 64.

89 Hattersley, *The Great Outsider*, t. 311.

90 Frances Stevenson mewn clip archif o’r rhaglen *My Darling Pussy* (BBC 1970), *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 23’35; mae Roy Hattersley yn sôn yn ei fywgraffiad o Lloyd George, *The Great Outsider*, t. 311, bod Frances Stevenson wedi aros tan cyhoeddi ei bywgraffiad (yn 1971) i ddisgrifio’i theimladau tuag at Lloyd George (Taylor, A. J. P., *Lloyd George: A Diary by Frances Stevenson* (London: Hutchinson and Co Ltd.); Longford, *Frances, Countess Lloyd George*, t. 9.

91 John Campbell a Dan Snow yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 34’59; Campbell, *If Love Were All ...*, t. 81.

else. He may have been a great man but he's one who's clearly not that compassionate so on another level you do find yourself attracted to him as a lover, as a human, and you almost feel yourself wishing him all the best in that relationship because he clearly loved her very much ... I feel a bit conflicted.⁹²

Fe ymddengys fod Dan Snow yn llwyr ymwybodol o'i gysylltiadau Cymreig, ac mae'r portread ohono fel 'mab y bwthyn' a oedd yn 'allanwr' – sy'n amlwg mewn rhaglenni dogfen ac y cyfeirir ato'n aml gan haneswyr – yn destun balchder amlwg iddo:

David Lloyd George was a most unlikely person to become Britain's First World War leader. He was from an anti-war party, the Liberals, from Nonconformist chapel-going Wales, he was not part of the establishment. He didn't go to Oxford or Cambridge and didn't have any military training. He was the ultimate outsider!⁹³

Gwelwn falchder Dan Snow wrth iddo ymweld â San Steffan a 10 Downing Street, a gweld cerflun a darlun Lloyd George:

And this is a special moment for me because right here is my great-great grandfather, David Lloyd George. Unlike all the previous owners of this office, he made it through talent alone. He wasn't born into an aristocratic family, he didn't have a huge amount of money or connections and therefore I can't help looking at this picture without a twinge of excitement and pride.⁹⁴

O ystyried y naratif am Lloyd George fel yr 'allanwr', rhoddir sylw ehangach yn y rhaglen hon i'r berthynas rhwng Lloyd George a'r cadfridogion, yn benodol Douglas Haig a William Robertson, sydd hefyd yn derbyn sylw yn y rhaglenni Cymraeg *Cerdded y Llinell* a *Canrif y Werin*.⁹⁵ Yn ei *War Memoirs of David Lloyd George*, gwneir y pwynt 'my differences with great Generals were not due to any personal or political motives'.⁹⁶ Nid yw'n bwnc sy'n derbyn llawer o sylw yn y rhaglenni dogfen ond ceir awgrym o ddrwgdybiaeth o

92 Dan Snow yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 35'35; Stevenson, *Lloyd George: A Diary by Frances Stevenson*, t. 14.

93 Dan Snow yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 6'08; adleisir hyn gan William George, *My Brother and I*, t. vii; Morgan, *Lloyd George*, t. 10; Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*, t. 158.

94 Dan Snow yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 39'29.

95 Sheffield, G. (2016), *Douglas Haig: From the Somme to Victory* (London: Aurum Press) [dim rhifau tudalennau yn yr e-lyfr].

96 George, D. Ll. (1936), *War Memoirs of David Lloyd George Volume II* (London: Odhams Press Limited), t. 2013.

Lloyd George ar sail ei gefndir a'r ffaith ei fod yn barod i gwestiynu'r cadfridogion dros benderfyniadau milwrol, ac arweiniodd hyn at ddrwgdeimlad gan nad oedd y cadfridogion yn fodlon â hyn.⁹⁷ Yr hyn sy'n debyg rhwng y rhaglenni yw'r portread o aneffeithlonrwydd y cadfridogion a'r berthynas letchwith a fodolai rhwng Lloyd George a'r cadfridogion.

Fe barodd yr eilun-addoli o Lloyd George yng Nghymru dros y degawdau. Nid yw'r rhaglenni dogfen Cymraeg yn rhoi darlun mor llawn o fywyd David Lloyd George â'r hyn a geir yn y rhaglenni Saesneg. Maent yn tueddu i fod yn ysgafn yn eu beirniadaeth ohono ac mae'n parhau i fod yn ffigwr sy'n cael ei roi ar bedestal gan haneswyr, yn enwedig haneswyr o Gymru. Ond yma ceir datgeliad rhai o'i 'gyfrinachau', sy'n rhoi ymdeimlad i'r gynulleidfa ei bod yn cael y ffrainc o glywed rhai o'r 'cyfrinachau' hyn. Mae'r rhaglen yn llwyddo i gynnig portread gwahanol o David Lloyd George, sy'n ystyried ei lwyddiannau gwleidyddol a'r cysyniad 'delfrydol' ohono, ynghyd â'r agweddau llai ffafriol a llai rhamantus.

Casgliad

Cofebau yw'r holl raglenni dogfen am y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ôl Dan Todman:

As Britons memorialised their dead, recorded their experiences and sought to make sense of what happened to them and their Country over the four years of war, an enormous number of different representations of it were produced.⁹⁸

Nid pwrpas unrhyw un o'r rhaglenni uchod oedd cynnig portread cyflawn o Gymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf, ond wrth ystyried y rhaglenni yn unigol, mae pob un yn ychwanegu at y ddealltwriaeth o ran Cymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf ar ffurf pynciau, themâu neu unigolion. Ond mae'n werth nodi mai'r unig ffyrnt y rhoddir sylw iddo yn y rhaglenni hyn yw Ffrynt y Gorllewin. O ran cynnwys y rhaglenni Saesneg teimlir bod rhan o hanes Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei golli drwy'r diffyg sylw i rai pynciau; enghreifftiau o hyn yw Hedd Wyn, stori gyfarwydd i gynulleidfa Gymraeg eu hiaith ond yn gyffredinol nid yw ei hanes yn cael ei gynnwys mewn rhaglenni Saesneg, ac eithrio'r rhaglen Saesneg y sonnir amdani yn yr erthygl hon. Enghraifft arall yw'r modd y mae David Lloyd George yn cael ei bortreadu yn y rhaglenni Saesneg o gymharu â'r rhaglenni Cymraeg.

Er y dewis eang o haneswyr ac arbenigwyr sydd ar gael i gyfrannu at y rhaglenni Saesneg, dim ond *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather* a *Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood* sy'n cynnwys mwy nag un

⁹⁷ Margaret Macmillan yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 44'30; Dan Snow yn cyfeirio ati fel 'another member of the Lloyd George dynasty' yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 12'47; Stevenson, *Lloyd George: A Diary by Frances Stevenson*, t. 17; Heather Jones yn *Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great-Grandfather*, 44'07. Mae'r hanesydd Gary Sheffield yn dadlau bod Douglas Haig wedi'i gambortreadu i raddau (Sheffield, *Douglas Haig*); Morgan, *Lloyd George*, t. 88 a t. 107.

⁹⁸ Todman, *The Great War: Myth and Memory*, t. 17; Hanna, *The Great War on the Small Screen*, t. 64.

arbenigwr. Mae'r arbenigwyr yn rhaglen Gareth Thomas, sef Andy Robertshaw, Steve Roberts a Richard Osgood, yn angerddol dros y pwnc ac yn rhoi cymaint o fanylder; mae eu cyfraniadau'n ychwanegu'n sylweddol at greu portread o'r profiad Cymreig o'r frwydr, yn fwy na mewn unrhyw raglen arall yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mewn modd tebyg yn rhaglen Dan Snow, gyda thrawstoriad o arbenigwyr gan gynnwys Dan Snow ei hun, crëir portread o David Lloyd George sy'n wahanol. Er yr ystyriwyd ei lwyddiannau gwleidyddol, ceir mwy o feirniadaeth ohono ac ystyriaeth o agweddau llai ffafriol ei gymeriad, a cheir mewnbyn nifer o arbenigwyr sy'n llwyddo i roi portread mwy cytbwys ohono o gymharu â nifer o'r rhaglenni Cymraeg. Mae'n werth nodi mai un rhaglen yn unig sydd ag arbenigwr benywaidd, sef Deirdre Beddoe, sydd hefyd yn cyflwyno'r rhaglen.

Yn *Welsh Memories of World War I*, er bod y cyfranwyr i gyd yn Gymry, nid yw'r straeon yn benodol am agweddau Cymreig o'r rhyfel. Ond mae'r atgofion hyn yn cynnwys manylion am y profiad o fod yn filwr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac am agweddau ar y rhyfel nad ydynt yn derbyn sylw yn y rhaglenni Cymraeg, megis colli ffrindiau, lladd cyddyn, a'r profiad o ymosodiadau nwy. Un ffigwr sy'n ymddangos yn gyson yn y rhaglenni Cymraeg, ond y cyfeirir ato unwaith yn unig yn y rhaglenni Saesneg, a hynny gan O. M. Roberts yn *Welsh Memories of World War I*, yw John Williams, Brynsiencyn. Fel ffigwr a oedd mor flaenllaw yn yr ymgyrch recriwtio Cymraeg yng ngogledd Cymru, wedi'i benodi gan David Lloyd George a oedd yn gyfaill personol iddo, mae hyn yn syndod. Yr unig esboniad yw'r ffaith ei fod o bosibl yn cael ei ystyried yn ffigwr Cymraeg ei iaith ac o ganlyniad nid yn ffigwr adnabyddus iawn i gynulleidfaoedd di-Gymraeg. Yn sicr yn rhaglen Dan Snow, lle y byddai John Williams, Brynsiencyn, fwyaf tebygol o ymddangos, ni roddir braidd dim sylw i gysylltiadau Lloyd George â Chymru a gwaith John Williams o recriwtio yno yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.⁹⁹

O'r 1880au ymlaen, mae'n werth nodi i genedlaethau o ddisgyblion adael yr ysgol gyda diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant eu gwlad eu hunain. Nid mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru yn unig y gwelir hyn, ond mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd. O ganlyniad, mae cyfrifoldeb ar sefydliadau cenedlaethol megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ac ar lenyddiaeth, y cyfryngau ehangach, ffilmiau a darlledu i gynrychioli'r agweddau hyn a'u cyflwyno i gynulleidfaoedd ehangach.¹⁰⁰ I nifer o wylwyr Cymru, teledu yw eu hunig gysylltiad at hanes, ac felly mae'n bwysig creu rhaglenni o safon uchel. Er y bu gostyngiad yn y nifer o raglenni dogfen a gynhyrchwyd am Gymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf ers diwedd y canmlwyddiant, os yw darlledwyr yn parhau i nodi brwydrau'r Rhyfel Byd Cyntaf ac i sicrhau bod cynnwys yn cael ei gynhyrchu'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd Cymreig, bydd y rhan bwysig hon o'n hanes yn cyrraedd cenedlaethau

99 Parri, H. (2014), *Gwn Glân a Beibl Budr: John Williams, Brynsiencyn a'r Rhyfel Mawr* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn), t. 150; Hughes, R. R. (1929), *Y Parchedig John Williams, D.D. Brynsiencyn* (Caernarfon: Gwasg y Cyfuneb), tt. 226–7.

100 Barlow, D., Mitchell P., a O'Malley, T. (2005), *The Media in Wales: Voices of a Small Nation* (Cardiff: University of Wales Press), t. 14; Davies, J. (1994), *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), t. ix.

a chynulleidfaoedd newydd.¹⁰¹

¹⁰¹ Todman, ““Something About Who We Are as a People””, 519.

Llyfryddiaeth

- Awdur anhysbys, 'Jane Ellison', gwefan yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol, <<https://www.iwm.org.uk/iwm-institute/associates/janeellison>> [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2024].
- Awdur anhysbys, 'Gwaith Creadigol Ifor ap Glyn', Llenyddiaeth Cymru, <<https://www.llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/bardd-cenedlaethol-cymru/ifor-ap-glyn-gwaith-creadigol/>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024].
- Awdur Anhysbys, 'Ifor ap Glyn: Bardd Cenedlaethol Cymru 2016-2022', Llenyddiaeth Cymru. <<https://www.llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/bardd-cenedlaethol-cymru/ifor-ap-glyn-bardd-cenedlaethol-cymru-2016-2022/>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024].
- Barlow, D., Mitchell P., a O'Malley, T. (2005), *The Media in Wales: Voices of a Small Nation* (Cardiff: University of Wales Press).
- Barlow, R. (2014), *Wales and World War One* (Llandysul: Gwasg Gomer).
- BBC (2016), 'BBC marks 100 years since the Easter Rising across TV, Radio and Online', 1 Mawrth, <<https://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2016/easter-rising>> [Cyrchwyd: 20 Chwefror 2024].
- Beddoe, D. (2000), *Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth-century Wales* (Cardiff: University of Wales Press).
- Bourke, J. (2000), *An Intimate History of Killing: Face-to-Face Killing in Twentieth-century Warfare* (London: Granta Books).
- Braybon, G. (2003), 'Winners or Losers: Women's Symbolic Role in the War Story', yn Braybon, G. (gol.), *Evidence, History, and the Great War: Historians and the Impact of 1914-18* (New York: Berghen Books), tt. 86-112.
- Campbell, J. (2007), *If Love Were All ... The Story of Frances Stevenson and David Lloyd George* (London: Vintage Books).
- Davies, J. (1994), *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).
- Deacon, R. (2018), 'David Lloyd George: the Welshman who won World War I', *The Conversation*, 5 Tachwedd, <<https://theconversation.com/david-lloyd-george-the-welshman-who-won-world-war-i-106081>> [Cyrchwyd: 15 Chwefror 2024].
- Dillon, R. (2010), *History on British Television: Constructing Nation, Nationality and Collective Memory* (Manchester: Manchester University Press).
- Ellison, J. (2018), 'World War One on the BBC', *Cultural Trends*, 27 (2), Mai, 125-30.
- Evans, D. (2016), 'Ymateb Merched Cymru i Ryfel 1914-1918', yn Matthews, G. (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 92-118.
- Fairclough, O. (2007), *'Things of Beauty': What two sisters did for Wales* (Cardiff: National Museum of Wales Books).
- Gaffney, A. (1998), *Aftermath: Remembering the Great War in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).
- George, D. Ll. (1936), *War Memoirs of David Lloyd George Volume II* (London: Odhams

- Press Limited).
- George, T. (2014), 'Female Agricultural Workers in Wales in the First World War', yn Andrews, M., a Lomas, J. (goln), *The Home Front in Britain: Images, Myths and Forgotten Experiences Since 1914* (Basingstoke and New York: Palgrave Macmillan), tt. 92–107.
- George, W. (1958), *My Brother and I* (London: Eyre and Spottiswoode).
- Geraint, J. (2021), 'Making History: The Story of Wales – Representing the Nation', yn Sills-Jones, D., a Jones, E. H. G. (goln), *Documentary in Wales: Cultures and Practices* (Oxford and New York: Peter Lang), tt. 67–90.
- Grayzel, S. R. (2002), *Women and the First World War* (Harlow: Pearson).
- Gruffydd, I. (1963), *Gŵr o Baradwys* (Dinbych: Gwasg Gee).
- Gwasanaethau'r Gynulleidfa, BBC Wales (2022), e-bost at Naomi Palmer, 5 Ionawr.
- Hanna, E. (2009), *The Great War on the Small Screen: Representing the First World War in Contemporary Britain* (Edinburgh: Edinburgh University Press).
- Hattersley, R. (2010), *The Great Outsider: David Lloyd George* (London: Abacus).
- Hicks, J. (2016), *The Welsh at Mametz Wood: The Somme 1916* (Talybont: Y Lolfa).
- Hughes, R. R. (1929), *Y Parchedig John Williams, D. D. Brynsiencyn* (Caernarfon: Gwasg y Cyfuneb).
- Jenkins, G. (2014), *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Talybont: Y Lolfa).
- Jones, E. (2014), 'Terror Weapons: The British Experience of Gas and Its Treatment in the First World War', *War in History*, 21 (3), 355–75.
- Jones, B. (2016), 'Cyn y Gyflafan', yn Matthews, G. (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Jones, G. S. (1990), 'A Sense of Place', yn Hannan, P. (gol.), *Wales in Vision: The People and Politics of Television* (Llandysul: Gomer Press), tt. 153–60.
- Komorowski, M. (2021), *Institute of Welsh Affairs Media Audit 2020* [arlein] (Cardiff: Institute of Welsh Affairs/Sefydliad Materion Cymreig), <https://www.iwa.wales/wp-content/media/IWA_MediaAudit2020.pdf> [Cyrchwyd: 15 Tachwedd 2023].
- Langermark-Poelkapelle (2024), 'Welsh National Memorial Park', <<https://www.langemark-poelkapelle.be/en/welsh-national-memorial-park>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024].
- Llwyd, A. (gol.) (2008), *Out of the Fire of Hell: Welsh Experience of the Great War 1914–1918 in Poetry and Prose* (Llandysul: Gomer Press).
- Llwyd, A. (2014), *Cofiant Hedd Wyn 1887–1917* (Talybont: Y Lolfa).
- Llwyd, A. (2018), *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914–1918* (Llandysul: Gomer).
- Longford, R. (1996), *Frances, Countess Lloyd George: More than a Mistress* (Leominster: Gracewing).
- Matthews, G. (2012), "'Sŵn yr ymladd ar ein clyw": Cyflwyno'r Rhyfel Mawr yn y Gymraeg', *Gwerddon*, 10 (11), 132–57.
- Matthews, G. (2016), 'Rhwyng Ffaith a Ffuglen: Atgofion Cyn-Filwyr Cymraeg mewn Cyfweiliadau Ddegawdau wedi Diwedd y Rhyfel', yn Matthews, G. (gol.), *Creithiau:*

- Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 241–57.
- Matthews, G. (2017), 'Evolving narratives of the First World War in Welsh-language television programmes', *SPEIL* 2 (2), 85–101.
- Mitchinson, K. W. (2014), *Pioneer Battalions in the Great War: Organized and Intelligent Labour* (Barnsley: Pen and Sword Books).
- Morgan, K. O. (1974), *Lloyd George* (London: George Weidenfeld and Nicolson Limited).
- Morris, W. (1969), *Hedd Wyn* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd).
- Padley, A. P. (2016), 'Gas: The greatest terror of the Great War', *Anaesth Intensive Care – History Supplement*, 24, 24–30.
- Palmer, N., 'Delweddu Cymru a'r Rhyfel Mawr: Portreadau o Gymru a'r Cymry mewn rhaglenni dogfen am y Rhyfel Byd Cyntaf', traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe, 2023.
- Parri, H. (2014), *Gwn Glân a Beibl Budr: John Williams, Brynsiencyn a'r Rhyfel Mawr* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn).
- Pennell, C. (2012), *A Kingdom United: Popular Responses to the Outbreak of the First World War in Britain and Ireland* (Oxford: Oxford University Press).
- Prior, N. (2014), 'How Land Girls helped feed Britain to victory in WW1', *BBC Wales*, 26 Chwefror, <<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-26238755>> [Cyrchwyd: 3 Mehefin 2025].
- Quinlan-Flatter, K. (2015), 'BBC TV documentary explores the Somme with rugby player Gareth Thomas', *Centenary News*, 1 Hydref. <<https://ww1centenarynewsarchive.com/posts/bbc-tv-documentary-explores-the-somme-with-rugby-player-gareth-thomas-10565/>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024].
- Renard, V. (2008), "'Reaching out to the Past": Memory in Contemporary British First World War Narratives', yn Meyer, J. (gol.), *British Popular Culture and the First World War*, (Boston: Brill Academic), tt. 285–304.
- Renshaw, M. (2015), *Welsh on the Somme: Mametz Wood* (Barnsley: Pen and Sword).
- Sheffield, G. (2016), *Douglas Haig: From the Somme to Victory* (London: Aurum Press).
- A. J. P. Taylor (gol.) (1971), *Lloyd George: A Diary by Frances Stevenson* (London: Hutchinson and Co Ltd).
- Todman, D. (2005), *The Great War: Myth and Memory* (London: Hambledon Continuum).
- Todman, D. (2005), 'The First World War in Contemporary British Popular Culture', yn Jones, H., O'Brien, J., a Schmidt-Supprian, C. (goln), *Untold War: New Perspectives in First World War Studies* (Boston: Brill Academic), tt. 417–42.
- Todman, D. (2016), "'Something About Who We Are as a People": Government, Media, Heritage and the Construction of the Centenary', *Twentieth Century British History*, 27 (4), 518–23.
- Thom, D. (2000), *Nice Girls and Rude Girls: Women Workers in World War I* (London and New York: I. B. Tauris Publishers).

- Toye, R. (2007), *Lloyd George and Churchill: Rivals for Greatness* (London: Pan Macmillan).
- van Emden, R., a Humphries, S. (1998), *Veterans: The Last Survivors of the Great War* (Barnsley: Leo Cooper).
- van Emden, R., a Humphries, S. (2003), *All Quiet on the Home Front: An Oral History of Life in Britain during the First World War* (London: Headline Book Publishing).
- Visit Flanders (2022), 'Welsh National Memorial Park, Langermark', <<https://www.visitflanders.com/en/things-to-do/attractions/top/welsh-national-memorial-park-langermark.jsp>> [Cyrchwyd: 15 Ionawr 2022].
- Watson, J. (2004), *Fighting Different Wars: Experience, Memory, and the First World War in Britain* (Cambridge: Cambridge University Press).
- White, E. (1985), *The Ladies of Gregynog* (Cardiff: University of Wales Press).
- Williams, G. R. (1990), *Cofio Canrif* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd).
- Williams, G. (1993), *Y Rhwyg: Arolwg o Farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul: Gwasg Gomer).
- Williams, S. (2010), 'Belgian cafe's tribute to Welsh war poet Hedd Wyn', *Wales Online*, 13 Mawrth 2010, <<https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/belgian-cafes-tribute-welsh-war-1929267>> [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2024].
- Woodeson, A. (1993), 'The first women police force: for equality or infringement?', *Women's History Review*, 2 (2), 217–32.

Rhaglenni Dogfen Cymraeg

- Byd o Liw: Y Rhyfel Mawr* (2008), Zip TV, 10 Ionawr, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=2974~4w~xWCvoMix>> [Cyrchwyd: 19 Ionawr 2024].
- Rhaglen 2 – 'Y Rhyfel Mawr', *Canrif y Werin* (2000), HTV Wales, 15 Ionawr, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1312~4h~GDh4Q67M>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024].
- Cerdded y Llinell* (2005), Tinopolis, 24 Hydref.
- Pennod 1 – 'Ypres-Messines', *Cerdded y Llinell* (2005), Tinopolis, 24 Hydref, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1402~4h~GDh5Q57M>> [Cyrchwyd: 22 Chwefror 2024].
- Pennod 59 – 'Griffith R. Williams', *Clasuron Hel Straeon* (2000), Seiont, 9 Ionawr, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1302~4g~eQSEeTNC>> [Cyrchwyd: 17 Ionawr 2024].
- David Lloyd George: Yncl Dafydd* (2016), Tinopolis, 20 Rhagfyr. Recordiad personol drwy Virgin Media [Cyrchwyd: 7 Ebrill 2018].
- Hedd Wyn: Canrif o Gofio* (2017), Cwmni Da, 6 Medi. Recordiad Virgin Media a archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=3757~4w~xXCtoKiA>> [Cyrchwyd: 11 Ionawr 2024].
- Lleisiau'r Rhyfel Mawr* (2008), Cwmni Da, 4 Tachwedd.

- Pennod 2 – ‘1916’, *Lleisiau'r Rhyfel Mawr* (2008), Cwmni Da, 11 Tachwedd, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1111~4e~csnpKVqT>> [Cyrchwyd: 12 Ionawr 2024].
- Pennod 4 – ‘1918’, *Lleisiau'r Rhyfel Mawr* (2008), Cwmni Da, 25 Tachwedd, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1109~4l~LpqhFeRj>> [Cyrchwyd: 24 Ionawr 2024].
- Mametz* (1987), HTV Wales, 19 Awst 1987, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1398~4v~69mNEP7f>> [Cyrchwyd: 10 Chwefror 2024].
- Pwy Sy'n Gwisgo'r Trowsus?* (2014), Boom Pictures Cymru, 27 Medi, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=2916~4s~tbthzxql>> [Cyrchwyd: 5 Chwefror 2024].
- Y Rhwyg* (1988), Teliesyn, 13 Tachwedd, archif S4C mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: <<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1397~4u~vx7cUQN5>> [Cyrchwyd: 1 Chwefror 2024].

Rhaglenni Dogfen Saesneg

- Dan Snow on Lloyd George: My Great-Great Grandfather* (2016), BBC Wales, 7 Rhagfyr. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/0E1ED249?bcast=123272880>> [Cyrchwyd: 16 Tachwedd 2023].
- Hedd Wyn: The Lost War Poet* (2017), Cwmni Da, 5 Awst. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/0F6C8EA1?bcast=127747653>> [Cyrchwyd: 11 Ionawr 2024].
- Lloyd George: The People's Champion* (2007), BBC, 16 Mai [arlein], <https://www.youtube.com/watch?v=-V_0hD-dVho> [Cyrchwyd: 5 Ionawr 2024].
- Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood* (2016), Bearhug TV for BBC Wales, 4 Gorffennaf. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/0CDAB3A3?bcast=122017311>> [Cyrchwyd: 1 Chwefror 2024].
- Welsh Memories of World War I* (Rhan 1) (2014), BBC Wales, 27 Awst. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/07948DBF?bcast=114013265>> [Cyrchwyd: 5 Ionawr 2024].
- Welsh Memories of World War I* (Rhan 2) (2014), BBC Wales, 3 Medi. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/079D7BA4?bcast=114131088>> [Cyrchwyd: 6 Ionawr 2024].
- Welsh Women of World War One* (2016), Green Bay Media a Deborah Perkin Media, 12 Gorffennaf. Ar gael ar Box of Broadcasts: <<https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/index.php/prog/0CE6BCE5?bcast=122146906>> [Cyrchwyd: 24 Ionawr 2024].

Delweddau

Bearhug TV (2016), *Wales at the Somme: Gareth Thomas and the Battle of Mametz Wood*, 4 Gorffennaf, 40'32, 47'28, 51'48.

Casgliad personol yr awdur, 'Yr Ysgwrn' (2015).

Casgliad personol yr awdur, placiau amrywiol ger Langermark yn deyrnged i Hedd Wyn (2018).

Cwmni Da (2017), *Hedd Wyn: The Lost War Poet*, 5 Awst, 9'09.